

## **Gwybodaeth a Chyngor i Rieni a Pherthnasau ar Feirws Syncytial Anadlol (RSV) (Bronciolitis)**

### **Y Tîm Atal Heintiau**

Mae'r daflen wybodaeth hon wedi'i chynllunio i'ch helpu i ddeall y cyflwr sydd wedi gwneud eich plentyn yn sâl.

Enw'r feirws a allai fod wedi achosi salwch anadlol eich plentyn yw Feirws Syncytial Anadlol (RSV).

Symptomau RSV yw:-

- Anadlu'n gynt (a all fod yn wichlyd ac yn gleciog)
- Peswch
- Creu mwy o fwcws (trwyn yn rhedeg, fflem)
- Tymheredd uchel
- Bod yn bigog
- Colli diddordeb mewn bwyta ac yfed

Mae RSV yn gyffredin mewn plant ac mae'r rhan fwyaf wedi'i gael erbyn iddynt fod yn ddwy oed. Gall RSV hefyd achosi haint mewn oedolion, ond mae'r cyflwr fel arfer yn llawer ysgafnach gan fod eu hysgyfaint a'u llwybrau anadlu'n fwy ac yn gallu ymdopi'n well. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwella o'r salwch o fewn ychydig ddyddiau, fodd bynnag, mae rhaid i nifer fach o blant fynd i'r ysbyty. Os caiff ei dderbyn i'r ysbyty bydd eich plentyn yn cael ei nyrsio mewn ystafell sengl.

Pan gaiff ei dderbyn i'r ward, cymerir gan eich plentyn sampl o'r mwcws a'i anfon i'r labordy ble caiff brawf ar gyfer RSV. Cesglir y sampl o gefn y trwyn gan ddefnyddio tiwb sugno bach. Mae'n brofiad digon annymunol i'ch plentyn, ond dim ond ychydig eiliadau y mae'n ei gymryd. Mae'n bwysig cael sbesimen fel hyn i wneud diagnosis o RSV ac i ddiystyru afiechydon eraill.

Nid yw gwrthfotigau'n effeithiol yn erbyn feirysau, felly mae trin RSV fel arfer yn gwbl gefnogol, drwy:-

- Ffonitro lefelau ocsigen corff eich plentyn (gan ddefnyddio monitor arbennig sy'n llithro ar fys eich plentyn ychydig fel peg dillad). Pan fydd lefelau ocsigen yn isel, gellir rhoi ocsigen naill ai drwy fasg, tiwb trwyn neu, i fabanod, drwy flwch pen.
- Sugno'r secretiadau'n ysgafn (mwcws, fflem) i helpu i gadw'r llwybrau anadlu'n glir.

- Gweinyddu paracetamol babanod i gadw'r tymheredd i lawr.
- Bwydo dros dro o bosibl drwy diwb trwyn-gastrig (trwyn i lawr i'r bol) os nad yw eich plentyn yn gallu bwyta.
- Cymorth anadlu o bosib (bydd angen hyn o bryd i'w gilydd yn unig)

Gallwch helpu'r staff nyrsio i ofalu am eich plentyn drwy;

- Gysuro ac annog eich plentyn i gadw mor dawel â phosibl, ac i gadw'r ocsigen ymlaen pan fo angen.
- Cadw eich plentyn yn y ciwbicl neu'r bae a golchi eich dwylo cyn ac ar ôl ymweld. (Gellir lledaenu RSV i blant eraill ar y ward nad ydynt efallai wedi cael haint neu a allai fod yn arbennig o agored i haint).

Mae croeso i chi ofyn os ydych yn poeni am unrhyw agwedd ar ofal eich plentyn. Deallwn y gall hwn fod yn gyfnod gofidus iawn i rieni, ond mae'r salwch fel arfer yn fyrhoedlog a heb gymhlethdodau difrifol.

### **O ble caf i ragor o wybodaeth?**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y **Tîm Atal Heintiau**. Os hoffech weld unrhyw un ohonynt, gofynnwch i staff y ward gysylltu â nhw.

### **Y TÎM ATAL HEINTIAU**

**Ysbyty Nevill Hall** **01873 73 2048**

**Ysbyty Brenhinol Gwent** **01633 23 8101 / 23 4921**

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /  
This document is available in English”.**